DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd (Ymadael â'r UE) 2022**
DYDDIAD	**8 Tachwedd 2022**
GAN	**Jeremy Miles AS/MS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Rheol Sefydlog 30C a Chytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol – Hysbysiad mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na osodwyd gerbron y Senedd

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol, ar ôl y cydsyniad a roddwyd gan y Gweinidog Addysg blaenorol ym mis Hydref 2019 a mis Rhagfyr 2020 i'r Offeryn Statudol (OS) uchod, bod drafft o'r OS wedi'i osod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn gadarnhaol ar 17 Hydref 2022. Bydd yr OS yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddir gan adran 8(1) o, a pharagraffau 21(a) a (b) a 38(1) i (3) o Atodlen 7 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16).

Gwneir y Rheoliadau hyn hefyd drwy arfer y pwerau a roddir i'r Trysorlys gan adran 90(1)(b) o Ddeddf Cyllid 2019 (p.1), i'r graddau y maent yn cael yr effaith o osod neu gynyddu trethiant drwy gael gwared ar gyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â threth incwm.

Trosolwg o bolisi'r OS

Canolfan ryngwladol ar gyfer astudiaethau ac ymchwil ôl-raddedig ac ôl-ddoethurol yw'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd. Nid sefydliad yn yr Undeb Ewropeaidd ydyw. Mae Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Diffinio Cytuniadau) 1975 (OS 1975/408) yn dynodi bod y Confensiwn yn sefydlu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn un o 'Gytuniadau'r UE' fel y'i diffinnir yn adran 1 o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972. Fe wnaeth y DU adael Confensiwn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn awtomatig pan wnaeth ymadael â'r UE, yn annibynnol ar yr offeryn hwn, gan fod bod yn aelod-wladwriaeth o'r UE yn un o amodau angenrheidiol ymuno â'r Confensiwn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd o dan delerau'r Confensiwn. Bu'r Llywodraeth y DU yn trafod gyda'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd i

archwilio'r posibilrwydd o ymgysylltu'n barhaus â'r Sefydliad. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw wedi bod yn bosibl dod i gytundeb i ddiffinio ymgysylltiad y DU yn y dyfodol.

Diben yr OS yw sicrhau bod y llyfr statud yn adlewyrchu gwirionedd y sefyllfa ymarferol o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r DU bellach yn aelod o Confensiwn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd.

Diben y diwygiadau
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas ag aelodaeth y DU o Gonfensiwn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd. Cafodd yr OS ei gyflwyno i'r pwyllgorau sifftio o dan y weithdrefn negyddol, sef 'offeryn negyddol arfaethedig' ar 19 Chwefror 2019, ac ers hynny awgrymwyd bod yr OS yn destun y weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y DU, ac mae Llywodraeth y DU wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw.

Ar hyn o bryd, aelod-wladwriaethau'r UE yn unig a all ymuno â'r Confensiwn. Daeth aelodaeth y DU o Gonfensiwn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd i ben o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd; felly diben yr OS yw dileu deddfwriaeth ddiangen o lyfr statud y DU a rhoi sicrwydd cyfreithiol. Mae'r OS yn dileu unrhyw hawliau, pwerau, dyledion, rhwymedigaethau, cyfyngiadau, rhwymedïau a gweithdrefnau o gyfraith ddomestig ("hawliau etc") a allai ddeillio o aelodaeth y DU o Gonfensiwn yr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd ac sydd fel arall, er gwaethaf ymadawiad y DU â'r UE a'r Confensiwn hwnnw, yn parhau i fod yn y llyfr statud fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir' yn rhinwedd Adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r OS hefyd yn cadw rhai o'r hawliau etc mewn achosion penodol.

Mae'r OS drafft a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w gweld yma:
The European University Institute (EU Exit) Regulations 2022 (legislation.gov.uk)

Yr effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.